Comisiynydd Heddlu a Throseddu
Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg yn ogystal â Saesneg.

This document is available in Welsh as well as English.

## TAFLEN CRYNHOI PENDERFYNIAD

**Diben:** Penderfyniad y Comisiynydd – Cyf. DL235

**Amseru** Arferol

**Teitl:** Estyn y Cytundeb Ymgynghorol Trais Domestig Annibynnol

**Categori Penderfyniad / Effaith Maes Busnes:** Comisiynu

**Crynodeb Gweithredol:**
Mae'r papur atodedig yn darparu'r rhesymwaith ar gyfer defnyddio cyfnod estyniad olaf y gwasanaeth IDVA rhanbarthol, a gomisiynir ar y cyd. Byddai'r cyfnod estyniad 12 mis olaf a ganiateir o fewn y cytundeb presennol yn dwyn y dyddiad y daw'r cytundeb i ben i 31 Mawrth 2023. Dylai cynllun prosiect gyd-fynd â'r estyniad hwn, sy'n amlinellu amserlenni ar gyfer dadansoddi galw, adolygu'r fanyleb ac ymarfer tendr llawn. Mae'r papur isod yn cynnwys drafft o'r cynllun prosiect.

Mae'r papur yn cael ei gyflwyno i aelodau'r Bwrdd Gweithredol VAWDASV yn eu cyfarfod ar 7 Hydref er mwyn cymeradwyo ar ran y comisiynwyr ariannu. Argymhellir bod CHTh hefyd yn cytuno i'r estyniad, gan alluogi'r gweithgor ar ran pob parti sy'n ariannu i ddatblygu'r cynllun prosiect a chyflwyno gwasanaeth IDVA wedi'i dendro a'i ddiwygio'n llawn i gychwyn â thrawsnewidiad di-dor ar 1 Ebrill 2023.

**Argymhelliad:**
Bod CHTh yn estyn y cytundeb presennol, a gomisiynir ar y cyd, ar gyfer darparu gwasanaeth ymgynghorol trais domestig annibynnol i 31 Mawrth 2023.

**Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys**

Cadarnhaf fy mod wedi ystyried a oes gennyf unrhyw ddiddordeb personol neu sy'n rhagfarnu yn y mater hwn a fy mod wedi gwneud y penderfyniad arfaethedig yn unol ag Egwyddorion Nolan ar gyfer Ymddygiad mewn Bywyd Cyhoeddus.

Rwy'n cymeradwyo'r cais uchod.

**Llofnod:** Dafydd Llywelyn

**Dyddiad: 07/10/2021**

COMISIYNYDD HEDDLU A THROSEDDU DYFED-POWYS
POLICE AND CRIME COMMISSIONER

## Atodiad 1

**Adroddiad i Fwrdd Gweithredol VAWDASV Canolbarth a Gorllewin Cymru**
**Gwasanaeth Cynghori Trais Domestig Annibynnol Rhanbarthol**
**Hydref 2021**

*Cefndir*

Ym mis Hydref 2017 cynhaliwyd cyfres o drafodaethau yn canolbwyntio ar y potensial ar gyfer comisiynu gwasanaethau ar y cyd ar gyfer dioddefwyr sydd â risg uchel o gam-drin domestig. Cymeradwyodd Bwrdd Gweithredol Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (VAWDASV) yr argymhellion isod:

- Rhaniad 50/50 rhwng cyfraniad yr Awdurdod Lleol a Chomisiynydd yr Heddlu a Throseddu er mwyn ariannu'r gwasanaeth Cynghori Annibynnol ar Drais yn y Cartref (IDVA) yn y dyfodol
- Cyfraniad ariannol cyfunol o £200,000 gan Awdurdodau Lleol ar draws Dyfed Powys gyda £200,000 gan Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu er mwyn galluogi cyflawni darpariaeth status quo o leiaf
- Cydnabyddiaeth nad yw grant VAWDASV Llywodraeth Cymru yn debygol o ddarparu digon o arian ar gyfer yr holl ofynion sy'n gysylltiedig â VAWDASV ac y bydd angen ystyried ymrwymiad o ffynonellau eraill
- Trefniadau ariannol a rheoli fel y'u nodir yn y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth[1] drafft
- Cychwyn y broses dendro yn unol â'r amserlenni a amlinellir yn yr adroddiad.

Yn dilyn hynny, cynhaliwyd ymarfer caffael ar y cyd, gydag Heddlu Dyfed Powys yn gweithredu fel comisiynydd arweiniol, a dechreuodd gwasanaeth IDVA newydd ar 1 Gorffennaf 2018. Y pwynt ymadael cyntaf ar gyfer y contract hwn oedd 31 Mawrth 2021 gyda 2 opsiwn i ymestyn o fewn y contract, pob un am gyfnod ychwanegol o 12 mis. Dyfarnwyd y contract i Hafan Cymru a Gofal a Chymorth Pobl yn gweithio ar y cyd ar draws ardal Dyfed Powys. Mae'r contract hwn wedi sicrhau sefydlogrwydd a chysondeb o ran darpariaeth gwasanaeth a fu'n amhosibl ei gyflawni ar gylchoedd ariannu blynyddol hanesyddol.

Yn seiliedig ar gyfartaledd cyflogau IDVA ledled Cymru a Lloegr, cyfartaledd costau unedau'n genedlaethol, a chan ddarparu ar gyfer costau rheoli cydnabyddedig y trydydd sector, galluogodd contract pris sefydlog o £400,000 y flwyddyn ddarparu 10.5 IDVA cyfwerth ag amser llawn. Roedd hyn yn seiliedig ar y niferoedd gofynnol yn ôl data Safe Lives mewn perthynas ag achosion Cynadleddau Asesu Risg Amlasiantaethol (MARAC).

[1] Cytunwyd ar y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth drafft rhwng partneriaid comisiynu er mwyn sicrhau eglurder ynghylch trefniadau ariannol, risg a rheoli perfformiad. Noder bod trefniant ar wahân ar waith rhwng Awdurdodau Lleol ynghylch y trefniadau bancio rhanbarthol ar gyfer derbyn grant VAWDASV Llywodraeth Cymru.

*Y sefyllfa ar hyn o bryd*

Ym mis Hydref 2020, cytunodd y Bwrdd ar gynnig i ddefnyddio'r cyntaf o'r cyfnodau ymestyn o 12 mis gan ymestyn dyddiad diwedd y contract hyd 31 Mawrth 2022. Roedd hyn yn rhoi sefydlogrwydd i ddarparwyr a dioddefwyr a'r bwriad oedd caniatáu i gomisiynwyr ddefnyddio canfyddiadau gwerthusiadau academaidd o effaith prosesau fel yr Uned Asesu Risg Eilaidd a Thrafodaethau Dyddiol i lywio gofynion y gwasanaeth IDVA yn y dyfodol.

Bwriad cyflwyno prosesau o'r fath oedd gwella asesiad risg dioddefwyr ac i ddechrau arweiniodd at gyflwyno llai o achosion risg uchel i MARAC. Fodd bynnag, yn ystod y misoedd diwethaf bu cynnydd mawr ym mhroffil risg dioddefwyr sy'n cael eu trafod mewn cyfarfodydd aml-asiantaeth ac felly mwy o alw am y gwasanaeth IDVA. O ganlyniad i hyn cyflwynwyd ceisiadau am gyllid ychwanegol gan ddarparwyr gwasanaethau drwy Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu i Gronfa Cymorth Critigol y Weinyddiaeth Gyfiawnder ar gyfer VAWDASV[2]. Mae'r cynigion amrywiol wedi bod yn llwyddiannus ac mae cyfanswm o 7 IDVA cyfwerth ag amser llawn wedi'u sicrhau ar draws Dyfed Powys ar amserlenni tymor byr.

Er bod y capasiti ychwanegol ar hyn o bryd yn fyr dymor, mae hyn yn amlwg yn effeithio'n sylweddol ar y galw a'r gofynion o ran gwasanaeth IDVA yn y dyfodol. Nid yw'n glir eto a yw'r galw hwn yn fyr neu'n hirdymor ac a yw'n alw priodol mewn gwirionedd ar gyfer darpariaeth IDVA risg uchel neu a ellir ei fodloni gan wasanaethau arbenigol eraill.

Rhaid i unrhyw newidiadau arfaethedig i strwythur a chapasiti hirdymor y contract IDVA ar gyfer tendro yn y dyfodol gael eu hategu gan sail dystiolaeth briodol. Mae hyn yn gofyn am ddadansoddi data gwasanaeth MARAC, Trafodaeth Ddyddiol ac IDVA ynghyd â thrafodaethau manwl gydag asiantaethau partner allweddol er mwyn sicrhau darlun cywir o ofynion y gwasanaeth.

*Cynnig*

Cynigir bod comisiynwyr yn defnyddio'r cyfnod ymestyn 12 mis olaf a ganiateir o fewn y contract presennol, gan ymestyn y dyddiad gorffen hyd 31 Mawrth 2023. I gyd-fynd â hyn, dylid cael cynllun prosiect sy'n amlinellu amserlenni ar gyfer dadansoddi'r galw, adolygu'r fanyleb ac ar gyfer ymarfer tendro llawn. Mae drafft cyntaf o'r cynllun hwn i'w weld isod:

IDVA project plan.xls

Bydd yr estyniad hwn hefyd yn rhoi sefydlogrwydd yn ystod y cyfnod adfer ar ôl Covid pan fo gwasanaethau a dioddefwyr wedi cael eu heffeithio'n sylweddol. Caiff y contract ei fonitro

[2] Darparwyd y gronfa hon gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder i gydnabod effaith benodol pandemig Covid ar ddarparwyr gwasanaethau cymorth domestig a rhywiol

drwy gyfarfodydd chwarterol rhwng cynrychiolwyr y comisiynwyr cyllid a'r darparwyr gwasanaethau. Roedd yr estyniad presennol yn seiliedig ar nifer o feysydd i'w gwella, gan gynnwys gweithio fel gwasanaethau di-dor ar draws y 2 sefydliad lletyol, bodloni gofynion achredu a hyfforddi a darparu set ddata gyson. Adroddir ar gynnydd yn erbyn y cynllun gweithredu hwn ym mhob cyfarfod monitro contractau, ac mae datblygiadau cadarnhaol wedi'u nodi hyd yma; bydd hyn yn parhau i gael ei graffu drwy gydol y cyfnod ymestyn ychwanegol.

Byddem yn gofyn i aelodau'r Bwrdd gymeradwyo bod Heddlu Dyfed Powys, ar ran y comisiynwyr ariannu, yn ymestyn y contract yn ffurfiol i'w ddyddiad olaf, sef 31 Mawrth 2023. Yn ystod y cyfnod hwn, bydd y partneriaid allweddol yn ymrwymo i'r camau gweithredu a gynhwysir yng nghynllun y prosiect ar gyfer darparu gwasanaeth IDVA wedi'i ddiwygio a'i dendro'n llawn i ddechrau gyda throsglwyddiad di-dor ar 1 Ebrill 2023.

*Current situation*

In October 2020, the Board agreed a proposal to utilise the first of the 12 month extension periods taking the end of contract date to 31st March 2022. This provided stability for providers and victims and was intended to allow commissioners to utilise the findings of academic evaluations into the impact of processes such as the Secondary Risk Assessment Unit and Daily Discussions to inform future requirements for the IDVA service.

The introduction of such processes was intended to improve the risk assessment of victims and had initially resulted in a lower volume of high risk cases being presented to MARAC. However, in recent months there has been an upward shift in the risk profile of victims being discussed at multi agency meetings and as such an increased demand on the IDVA service. This has resulted in additional funding bids being submitted by service providers via the Office of the Police and Crime Commissioner into the Ministry of Justice Critical Support Fund for VAWDASV[4]. The various bids have been successful and a total addition of 7 FTE IDVAs have been secured across Dyfed Powys on short term timescales.

Whilst the additional capacity is at present short term in nature, this clearly impacts significantly on the demand and requirements for a future IDVA service. It is as yet unclear whether this demand is short or long term and whether in fact it is appropriate demand for a high risk IDVA provision or whether it can be met by other specialist services.

Any proposed changes to the long term structure and capacity of the IDVA contract for future tendering must be supported by an appropriate evidence base. This requires analysis of MARAC, Daily Discussion and IDVA service data along with detailed discussions with key partner agencies to determine a true picture of the requirements of the service.

*Proposal*

It is proposed that commissioners utilise the final 12 month extension period allowable within the existing contract, taking the end date to 31st March 2023. This should be accompanied by a project plan outlining timescales for demand analysis, revision of specification and full tender exercise. A first draft of this plan is attached below:

IDVA project plan.xlsx

This extension will also provide stability during the post-Covid recovery period during which services and victims have been significantly affected. The contract is monitored via quarterly meetings between representatives for the funding commissioners and the service providers. The existing extension was predicated on a number of areas for improvement, including

[4] This fund was provided by Ministry of Justice in recognition of the specific impact of the Covid pandemic on providers of domestic and sexual support services